Wales
Sefydliad y cyfarwyddwyr

# Arolwg Cyflwr y Genedl 2024



# Rhagair



> Roeddwn am achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rhai a gwblhaodd yr arolwg a pharhau i roi gwybod i ni am y meysydd o bwysigrwydd allweddol i fusnesau Cymru yn 2025.

**Mae'n bleser gennyf, fel Cadeirydd Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD) Cymru, gyhoeddi ein cyhoeddiad Cyflwr y Genedl cyntaf erioed i Gymru. Rwy'n wirioneddol gredu bod yr adroddiad ar Gyflwr y Genedl yn dod ar adeg dyngedfennol i Gymru, yn sgil Cyllideb y DU 2024 a chyn Etholiadau'r Senedd yn 2026.**

Mae ein hymatebion i'r Arolwg o Gyflwr y Genedl yn ein cefnogi i gynrychioli ac adlewyrchu barn ein haelodau'n well yn ein hymgysylltiad polisi â Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r pynciau rydym wedi'u dethol eleni wedi'u dewis ar ôl ymgynghori'n agos â'n haelodaeth yng Nghymru a'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym yn ein digwyddiadau, pwyllgorau polisi a fforymau eraill.


Bydd adroddiad Cyflwr y Genedl IoD Cymru yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol fel gwiriad iechyd ar economi Cymru, i'n galluogi i feincnodi o amgylch tueddiadau a phynciau allweddol sy'n dod i'r amlwg bob blwyddyn.

Roeddwn am achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r rhai a gwblhaodd yr arolwg a pharhau i roi gwybod i ni am y meysydd o bwysigrwydd allweddol i fusnesau Cymru yn 2025.

Edrychaf ymlaen at drafod y canlyniadau gyda chi i gyd yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,

**Richard Selby**
Cadeirydd, Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru





# Cefndir

**Bydd y dadansoddiad parhaus o ganlyniadau'r arolwg hwn yn ein galluogi i sicrhau, trwy ein hymgynghoriadau, ein digwyddiadau a'n hymgysylltiadau, ein bod yn ymateb i ac yn adlewyrchu'r materion polisi allweddol ar gyfer ein haelodau Cymreig.**

Roedd Arolwg Cyflwr y Genedl yn agored i ymatebion gan aelodau o Sefydliad y Cyfarwyddwyr yng Nghymru o 1 Medi tan 4 Hydref 2024. Cynhaliwyd yr arolwg cyn Cyllideb y DU 2024.

Bydd IoD Cymru yn defnyddio canlyniadau'r arolwg hwn fel sail ar gyfer cynllunio ein hymgysylltiad a'n gweithgareddau gyda'n haelodau yn ystod 2025. Mae'r atebion a rannwyd yn rhoi arweiniad clir i ni ar y materion allweddol, ac rydym yn awr am feddwl sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i fwydo'r mewnwelediad a'r profiad hwn i lunwyr polisi a phenderfyniadau ar lefel Cymru a'r DU.


**93%**

**o ymatebwyr yn aelodau llawn o IoD**


**7%**

**o'r ymatebwyr yn Gymdeithion**

**Pa gangen IoD Cymru ydych chi'n aelod ohoni?**




## Rôl/swydd



| Ateb | % |
|---|---|
| Cadeirydd | 8.47 |
| Prif Weithredwr/Rheolwr Gyfarwyddwr | 66.10 |
| Cyfarwyddwr/Aelod Bwrdd Arall | 13.56 |
| Cyfarwyddwr Gwerthu/Marchnata/Cyfathrebu | 5.09 |
| Uwch Reolwr | 5.09 |
| Unig Fasnachwr | 1.69 |

## Sector



| Ateb | % |
|---|---|
| Gweithgareddau llety a gwasanaethau cymorth | 5.08 |
| Celfyddydau, adloniant a hamdden | 1.69 |
| Adeiladu | 1.69 |
| Addysg | 8.47 |
| Cyflenwad trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | 1.69 |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 6.78 |
| Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1.69 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 13.56 |
| Gweithgynhyrchu | 20.38 |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 11.86 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 18.64 |
| Gweithgareddau eiddo tiriog | 1.69 |
| Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 6.78 |

# Pobl a sgiliau

**O ran pobl fedrus yn sector ein hymatebwyr, cymysg oedd y darlun. Teimlai 53% nad oedd ganddynt y nifer cywir o bobl fedrus ar gyfer y swyddi presennol a theimlai 47% fod ganddynt.**


Fe ofynnom hefyd i ymatebwyr a oeddent yn teimlo'n hyderus y byddent yn gallu recriwtio ar gyfer swyddi gwag yn y flwyddyn i ddod. Dywedodd 44% nad oeddent yn hyderus y byddent yn gallu a dywedodd 41% eu bod yn hyderus.

**A oes gan eich sefydliad y nifer cywir o bobl fedrus ar gyfer eich swyddi presennol?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Oes | 47.46 |
| Nac oes | 52.54 |

**A ydych chi'n teimlo'n hyderus y bydd eich prif sefydliad yn gallu recriwtio'r bobl iawn ar gyfer y swyddi gwag y mae angen ichi eu llenwi yn y flwyddyn i ddod?**




| Ateb | % |
|---|---|
| Ydw | 40.68 |
| Nac ydw | 44.07 |
| Ddim yn gwybod | 15.25 |

## Buddsoddiad mewn Sgiliau Gweithwyr

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr fod buddsoddi mewn sgiliau gweithwyr a datblygiad hirdymor yn flaenoriaeth uchel i'w busnes (58%), dywedodd 34% ei fod yn dipyn o flaenoriaeth a dim ond 8% a ddywedodd nad oedd yn flaenoriaeth.

**I ba raddau mae eich sefydliad yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn sgiliau gweithwyr o gymharu â blaenoriaethau sefydliadol eraill?**




| Ateb | % |
|---|---|
| Mae'n flaenoriaeth uchel | 57.63 |
| Nid yw'n flaenoriaeth | 8.47 |
| Mae'n flaenoriaeth i raddau | 33.90 |

## Prentisiaethau/cynlluniau hyfforddi yn y gweithle

Gofynnwyd i'n hymatebwyr am brentisiaethau a chynlluniau hyfforddi yn y gweithle, ac a oedd eu sefydliad yn defnyddio unrhyw un o'r rhain. Roedd 19% yn defnyddio prentisiaethau, 17% yn defnyddio cynlluniau hyfforddi yn y gweithle, 22% yn defnyddio cyfuniad o'r ddau a 42% heb ddefnyddio'r naill na'r llall.

**Ydy'ch prif sefydliad yn cyflogi prentisiaid neu'n cefnogi cynllun hyfforddi yn y gweithle?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Prentisiaethau | 18.64 |
| Y ddau | 22.04 |
| Naill na'r llall | 42.37 |
| Cynllun hyfforddi yn y gweithle | 16.95 |

Dywedodd adborth yr ymatebwyr "nid oes unrhyw brentisiaethau ar gael sy'n berthnasol i'n hanghenion busnes", dywedodd eraill hefyd "nid ydym yn gwybod digon am y cynllun ac nid oes neb wedi cyfleu ei fanteision i ni".




# Prifysgolion/Colegau


**O ran ymgysylltu â Phrifysgolion/Colegau, cymysg oedd y darlun ar gyfer busnesau Cymru. Roedd 37% o ymatebwyr wedi ymgysylltu â Cholegau, gyda 41% yn ymgysylltu â phrifysgolion ledled Cymru.**

Roedd y prif fecanweithiau ymgysylltu â'r sefydliadau hyn gydag academyddion ac arbenigwyr diwydiant, megis Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, gyda 61% o ymatebwyr yn defnyddio'r gwasanaethau hyn. Yn ogystal, roedd gan 49% brosiectau ymchwil ar y cyd ag academyddion/myfyrwyr, roedd 29% yn defnyddio cymorth gwasanaethau gyrfa ac 19% yn ymgysylltu ar sail bod yn gyn-fyfyrwyr ac yn gymwynaswr.

**A yw eich prif sefydliad yn ymgysylltu â'ch prifysgol leol a/neu goleg lleol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**




**Dywedoch chi fod eich sefydliad yn ymgysylltu â'ch prifysgol leol a/neu goleg lleol. Ym mha rinwedd? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**




## Graddedigion

Gan adeiladu ar yr ymgysylltu â Phrifysgolion a Cholegau, roedd 51% o'n haelodau'n cyflogi graddedigion a 46% heb gyflogi unrhyw un ac roedd 3% yn ansicr a oeddent yn gwneud hynny ai peidio.


Gan droi at yr hyn a ddisgwylir gan raddedigion yn y swydd, dywedodd mwyafrif cryf o 79% o'r ymatebwyr fod y graddedigion yn bodloni'r disgwyliadau, dywedodd 11% nad oeddent yn gwneud hynny ac roedd y 10% sy'n weddill yn ansicr. Y prif resymau a nodwyd dros yr 11% a ddywedodd nad oeddent yn bodloni disgwyliadau oedd diffyg sgiliau a diffyg parodrwydd ar gyfer y gweithlu.

**A yw eich prif sefydliad yn cyflogi graddedigion diweddar?**




| Ateb | % |
|---|---|
| Ydy | 50.8 |
| Nac ydy | 45.8 |
| Ddim yn gwybod | 3.4 |

**Dywedoch chi fod eich sefydliad yn cyflogi graddedigion diweddar. Ydyn nhw wedi bodloni eich disgwyliadau?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Do | 79.31 |
| Naddo | 10.34 |
| Ddim yn gwybod | 10.34 |

**Pam nad ydyn nhw wedi bodloni eich disgwyliadau? Dewiswch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol.**






# Deallusrwydd Artiffisial

**Mae pwnc Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn faes arall yr oeddem yn awyddus i gael gwybodaeth gan ein haelodau arno a sut yr oeddent yn ei ddefnyddio yn y gweithlu. Nid oedd 59% o'n haelodau yn defnyddio AI ac roedd 37% yn defnyddio AI.**


Fe ofynnom hefyd i ymatebwyr am y cyfleoedd neu'r bygythiad yr oedd AI yn ei achosi i'w sefydliad. Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr (54%) fod AI yn gyfle iddynt, teimlai 36% ei fod yn gyfuniad o gyfle a bygythiad, gyda 7% yn teimlo nad oedd yn fygythiad nac yn gyfle.

**A yw eich prif sefydliad yn defnyddio AI yn unrhyw un o'i brosesau?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Ydy | 37.3 |
| Nac ydy | 59.3 |
| Ddim yn gwybod | 3.4 |

**Ydych chi'n gweld AI fel:**



| Ateb | % |
|---|---|
| Cyfle i'ch busnes | 54.2 |
| Y ddau uchod | 35.6 |
| Ddim yn gwybod | 3.4 |
| Dim un o'r uchod | 6.8 |


O ran ymatebwyr yn defnyddio AI, roedd y prif ddefnyddiau yn ymwneud â symleiddio prosesau, meddalwedd ChatGPT ar gyfer golygu testun a gweithgareddau marchnata. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr a oedd yn defnyddio AI eu bod yn y camau prawf i raddau helaeth ac nad oeddent wedi penderfynu'n llawn ar y ffordd orau o'i ymgorffori yn eu sefydliadau priodol.


FLOWER ROOM 3 DASHBOARD
TEMPERATURE
80°F/25°C
HUMIDITY
67%
SUN IRRADIANCE
450W/M2
SOIL MOISTURE
50%
AMBIENT CO2
950PPM

# Uchelgeisiau ar gyfer Twf

**Gofynnodd ein harolwg i'n hymatebwyr am eu cynlluniau twf ar gyfer eu sefydliad yn y dyfodol. Roedd gan ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51%) gynlluniau ar gyfer "twf cyson" ar hyn o bryd, roedd gan 19% gynlluniau ar gyfer "twf uchelgeisiol a chyflym", roedd 24% yn canolbwyntio ar y "cynnig craidd a gweithgaredd cyfnerthu" ac roedd 6% yn torri costau mewn "amgylchedd masnachu anodd".**

**Pa mor uchelgeisiol ar gyfer twf yw eich sefydliad ar hyn o bryd yn eich barn chi? Dewiswch yr opsiwn sy'n cynrychioli eich barn orau.**



| Ateb | % |
|---|---|
| Rydym yn atgyfnerthu gweithgarwch ac yn canolbwyntio ar ein cynnig | 23.73 |
| Rydym yn torri costau mewn amgylchedd masnachu anodd | 6.78 |
| Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i gynyddu'n gyflym | 18.64 |
| Mae gennym gynlluniau ar gyfer twf cyson | 50.85 |




# Blaenoriaethau polisi

**Gofynasom i'n hymatebwyr am y tair blaenoriaeth bolisi allweddol iddynt hwy a'u sefydliadau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Roedd gan ein rhestr nifer o wahanol feysydd yn gyffredinol ond isod mae'r tri maes a soniwyd amdanynt amlaf.**

Nodwyd Prinder Sgiliau gan 39% o ymatebwyr fel y flaenoriaeth polisi allweddol, ac yna Sicrwydd Polisi (36%) a Chost Llafur/Deunyddiau (29%).

Roedd lefel trethiant a chyllid allanol hefyd yn uchel ar y rhestr gyda 27% a 21% o ymatebwyr yn sôn am y meysydd hyn.

**Pa un o'r materion polisi canlynol fydd yn flaenoriaeth i'ch sefydliad dros y pum mlynedd nesaf? Dewiswch eich tri uchaf.**






# Twf Economaidd Llywodraeth Cymru

**Pan ofynnwyd a oedd gan Lywodraeth Cymru yr economi yn ddigon uchel ar y rhestr flaenoriaeth, atebodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (71%) Nac oes, o'i gymharu â 12% a ddywedodd Oes.**

**A ydych yn meddwl bod yr economi yn ddigon uchel ar restr flaenoriaethau Llywodraeth Cymru?**




| Ateb | % |
|---|---|
| Ydw | 11.9 |
| Nac ydw | 71.2 |
| Ddim yn gwybod | 16.9 |

# Yr Undeb Ewropeaidd (UE)

**Holwyd yr ymatebwyr hefyd am effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar eu busnes. Isod mae'r canlyniadau ynghylch i ba raddau y mae wedi helpu neu rwystro.**

**I ba raddau ydych chi'n teimlo bod gadael yr UE wedi rhwystro neu helpu economi Cymru?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Wedi helpu yn sylweddol | 3.39 |
| Wedi helpu ychydig | 3.39 |
| Nid yw wedi helpu na rhwystro | 16.95 |
| Wedi rhwystro ychydig | 11.86 |
| Wedi rhwystro'n sylweddol | 54.24 |
| Ddim yn gwybod | 10.17 |


I'r rhai a deimlai ei fod wedi "rhwystro'n sylweddol neu wedi rhwystro ychydig", roedd y ddau faes a nodwyd yn gyffredin yn yr adran sylwadau fel problem yn ymwneud â mynediad at dalent/llafur a'r elfen gost sydd wedi cynyddu ar allforio a deunyddiau crai. Cyfeiriwyd hefyd at ffactorau megis colli cyllid yr UE mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru.

Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod gadael yr UE yn rhwystr mewn rhyw ffordd, roedd rhai sylwadau a oedd yn tynnu sylw at elfennau'r ymadawiad a oedd wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu busnes. Y maes allweddol y soniwyd amdano oedd pwerau gwneud penderfyniadau a rheoleiddio/biwrocratiaeth.

# Llywodraethu/Arweinyddiaeth


**Yn yr IoD, mae llywodraethu ac arweinyddiaeth yn flaenoriaethau uchel i ni fel sefydliad ac i'n haelodau. Roeddem am gael cipolwg ar y rôl y gall llywodraethu ac arweinyddiaeth ei chwarae ar draws ystod ehangach o fetrigau mewn sefydliadau.**

**Cyrraedd targedau amgylcheddol**



| Ateb | % |
|---|---|
| Pwysig iawn | 50.8 |
| Pwysig | 35.6 |
| Ddim yn bwysig | 13.6 |


**Proffidioldeb y cwmni**



| Ateb | % |
|---|---|
| Pwysig iawn | 78 |
| Pwysig | 16.9 |
| Ddim yn bwysig | 5.1 |


Y meysydd a nodwyd amlaf yr oedd ymatebwyr yn teimlo bod gan lywodraethu ac arweinyddiaeth rôl i'w chwarae oedd ynghylch proffidioldeb cwmnïau (78%) a gwreiddio targedau amrywiaeth a chynhwysiant (46%).

**Ymgorfforfi egwyddorion amrywiaeth a chynhwysiant yn niwylliant y sefydliad**



| Ateb | % |
|---|---|
| Pwysig iawn | 45.8 |
| Pwysig | 30.5 |
| Ddim yn bwysig | 18.6 |
| Ddim yn gwybod | 5.1 |

**Perfformiad economaidd Cymru**



| Ateb | % |
|---|---|
| Pwysig iawn | 61 |
| Pwysig | 23.7 |
| Ddim yn bwysig | 8.5 |
| Ddim yn gwybod | 6.8 |



# Taith ACLI


## Ar bwnc nodau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ACLI), gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau y mae'r rhain wedi'u gwreiddio yn eu sefydliad.

Dywedodd ymhell dros hanner yr ymatebwyr (63%) fod ACLI wedi'i wreiddio "i ryw raddau" yn y sefydliad, dywedodd 22% ei fod wedi'i wreiddio'n "llawn". Dywedodd 7% nad oeddent wedi cychwyn ar y daith ond eu bod ar fin cychwyn, nid oedd 5% wedi ystyried hyn eto a dywedodd 3% nad oeddent yn bwriadu cychwyn.

## Cyfleoedd ACLI


Fe ofynnom hefyd i ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod ACLI yn cynnig cyfleoedd i'w busnes ehangu a thyfu. Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51%) ei fod yn gyfle, dywedodd 31% nad oedd yn gyfle a theimlai 10% nad oedd yn gyfle ar hyn o bryd.

**I ba raddau y mae eich sefydliad wedi ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ACLI) yn ei strategaeth fusnes, ei weithrediadau a'i gynigion cynnyrch a/neu wasanaeth?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Yn llawn | 22 |
| I ryw raddau | 62.7 |
| Nid ydym yn bwriadu gwneud | 3.4 |
| Nid ydym wedi ystyried hyn eto | 5.1 |
| Nid ydym wedi eto ond yn bwriadu gwneud | 6.8 |


**Ydych chi'n teimlo bod ACLI yn gyfle i'ch busnes?**




| Ateb | % |
|---|---|
| Ydy | 50.85 |
| Nac ydy | 30.51 |
| Ddim yn flaenoriaeth ar hyn o bryd | 10.17 |
| Ddim yn gwybod | 8.47 |

I'r rhai a atebodd "Ydyn" bod targedau ACLl yn gyfle, gofynnwyd iddynt ym mha feysydd yr oeddent yn teimlo y gallai gynnig y cyfleoedd hyn. Teimlai 41% fod cael eu "gweld" i wneud y peth iawn/amlygiad brand yn rheswm allweddol, roedd 24% yn gweld cyfle i gynhyrchu refeniw o ran y cynnyrch a gynigir, soniodd 17% am gyfle i ddiogelu'r genhedlaeth nesaf ac atebodd gweddill yr ymatebwyr bob un o'r uchod.

**Dywedoch chi fod ACLl yn gyfle i'ch busnes. Pa fath o gyfleoedd y mae'n eu cynnig i'ch sefydliad?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Cyfle i dynnu sylw at ein brand (h.y. cael eich gweld yn gwneud y peth iawn) | 41.37 |
| Cyfle i gynyddu gwerthiant | 24.14 |
| Diogelu'r genhedlaeth nesaf o dalent | 17.24 |
| Mae'n greiddiol i'n pwrpas | 3.45 |
| Aliniad moesol a moesegol â phwrpas | 3.45 |
| Rhaid parhau yn rhan sylfaenol o lywodraethiant da | 3.45 |
| Pob un o'r uchod | 6.9 |






### Targed Sero Net Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â'n cwestiynau am ACLl, fe ofynnom hefyd i ymatebwyr a oeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth i arwain eu sefydliad tuag at dargedau Sero Net Llywodraeth Cymru. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (54%) nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod angen mwy o adnoddau. Dywedodd 25% eu bod yn teimlo eu bod ar eu ffordd tuag at y targedau.

**A ydych yn teimlo eich bod yn cael cefnogaeth i allu arwain eich sefydliad i gyflawni targed Sero Net Llywodraeth Cymru?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Ydym, rydym ar y trywydd cywir | 25.42 |
| Nac ydym, mae angen mwy o gefnogaeth ac adnoddau | 54.24 |
| Ddim yn gwybod | 20.34 |

# Datblygiad Personol Parhaus (DPP)

**Mae Datblygiad Personol Parhaus yn bwnc pwysig arall i IoD a gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'n haelodau am eu taith DPP.**

Roedd 75% o'r ymatebwyr wedi cwblhau rhyw fath o DPP o fewn y tair blynedd diwethaf, gyda 25% heb gwblhau unrhyw fath o gwbl.

Roedd 27% o'r ymatebwyr hefyd wedi cwblhau rhyw fath o DPP drwy IoD a'r tîm Datblygiad Proffesiynol.

**A ydych chi'n bersonol wedi ymgymryd ag unrhyw fath o DPP dros y tair blynedd diwethaf?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Do | 74.58 |
| Naddo | 25.42 |

**A oedd unrhyw ran o'r DPP hwn gyda'r IoD?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Oedd | 27.3 |
| Nac oedd | 72.7 |



**Dyfodol DPP**

Gan edrych ymlaen at y tair blynedd nesaf, mae 80% o ymatebwyr yn bwriadu cwblhau DPP, ac nid oes gan 20% unrhyw fwriad i wneud hynny ar hyn o bryd.

**A ydych yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw fath o DPP yn ystod y 3 blynedd nesaf?**



| Ateb | % |
|---|---|
| Ydw | 79.7 |
| Nac ydw | 20.3 |

# Casgliad a'r Camau Nesaf

**I gloi, hyderwn y bydd y pynciau yr ydym wedi ymdrin â hwy o ddiddordeb i'n haelodau a'n rhanddeiliaid. Mae'r canfyddiadau'n eang eu cwmpas ond roedd y tri maes a gafodd y sylw mwyaf yn canolbwyntio ar Economi Cymru, Sgiliau a'r Berthynas UE/masnach. Roedd pob un o'r meysydd hyn yn peri pryder arbennig i'r mwyafrif o'n hymatebwyr.**

Cyn Etholiadau Senedd 2026, bydd IoD Cymru yn cynhyrchu "Maniffesto Busnes", a bydd canfyddiadau ein Cyflwr y Genedl yn helpu i lunio ein gweledigaeth ar gyfer ein Maniffesto. Bydd ein Maniffesto yn edrych tuag at y meysydd lle gellir cael gwell perthynas waith rhwng busnes a llywodraeth yng Nghymru i ysgogi twf economaidd cynaliadwy.

Dyma flwyddyn gyntaf Arolwg Cyflwr y Genedl IoD Cymru ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau i ddatblygu'r arolwg wrth symud ymlaen. Wrth i'r arolwg symud i mewn i flwyddyn 2 a 3, byddwn yn anelu at feincnodi rhai meysydd i olrhain cynnydd dros gyfnod o amser ac asesu meysydd ymyrraeth polisi a all fod yn ofynnol.



Bydd canlyniadau'r arolwg yn helpu i lunio ein hymgysylltiad polisi o ddydd i ddydd, cynllunio digwyddiadau a blaenoriaethau sectoraidd. Er y bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol, byddem yn annog aelodau'n gryf i barhau i gyfrannu at ein harolwg Llais Polisi DU gyfan (a gynhelir yn fisol) i helpu i lunio ein hymgysylltiad polisi â Llywodraethau'r DU a Chymru

**Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr arolwg neu'r canfyddiadau, cysylltwch â marc.strathie@iod.com**



© 2024 Sefydliad y Cyfarwyddwyr

iod.com